Rhwng Dau Dafod

gan

Cerys Thomas-Ford

42 Homfray Street
Nantyffyllon, Maesteg
Pen-y-Bont ar Ogwr
CF34 0HW
07968272703
cerys_t@hotmail.co.uk

CYMERIADAU

Beca
Kelly
Mari
Rhiannon
Alex
Gethin
William
Athro
Plismwn

AMSER/ LLEOLIAD

Presennol. Y Cymoedd.

Neuadd y Pentref
Swyddfa mewn ysgol
Parc/ stryd tu fas
Ystafell gorsaf heddlu

GOLYGFA 1 MAE TAIR MENYW, BECA, MARI A RHIANNON YN EISTEDD O GWMPAS BWRDD YN NEUADD Y PENTRE. O'U CWMPAS MAE BYRDDAU ERAILL, TEGANNAU, A DAU BYGI GYDA PHLANT YNDDYNT (NID OES ANGEN O REIDRWYDD GWELD Y PLANT). MAEN NHW'N BRYSUR YN SIARAD PAN FO' MENYW ARALL, KELLY, YN CERDDED MEWN YN GWTHIO BYGI. MAEN NHW'N STOPIO SIARAD AC YN EDRYCH ARNI TRA BOD HI'N AGOSAU.

KELLY Hiya! Ife fan hyn mae Ti a Fi?

DIM OND MARI, AR ÔL SYLWI NAD YW'R DDWY ARALL YN MYND I HYD YN OED GWENU, SY'N EI CHYFARCH.

MARI Hiya - Ti a Fi pob bore Gwener yn y stafell drws nesa.

KELLY Diolch.

MAE HI'N EDRYCH O GWMPAS YR YSTAFELL AC AR Y MENYWOD.

O's na unrhywbeth penodol yn digwydd ar Tuesday's, te?

MAE MARI'N AGOR EI CHEG OND MAE BECA'N NEIDIO MEWN.

BECA Dim byd penodol. Ni jest yn cael chat.

MAE MARI YN EDRYCH BRAIDD YN ANGHYFFORDDUS TRA BOD BECA A RHIANNON YN GWENU'N FFALS.

KELLY (YN NODIO)

Gwela i. Diolch.

GYDA GOLWG ARALL O GWMPAS Y BWRDD A SHRYG MAE KELLY'N TROI A GADAEL.

MARI O'dd angen?

BECA (YN YSTUMIO TUAG AT CYFEIRIAD KELLY AC YN PWYSO'N AGOSACH AR Y BWRDD)

Ch'mod be' ma' nhw'n neud gyda'r tŷ 'na?

MAE HI'N AROS I'R DDWY ARALL EDRYCH YN DDISGWYLGAR.

Air BnB.

BECA'N EISTEDD NÔL A PHLETHU EI BREICHIAU YN SMYG WRTH I'R DDWY ARALL EDRYCH YN SYN ARNI.

(CONTINUED)

CONTINUED:

MARI Paid a bod yn ddwl; ma' nhw 'di symud mewn iddo fe nagyn nhw?!

BECA Ie, ond mae *granny flat* do's e? Nes i glywed bo' nhw'n mynd i fyw yn hwna a neud AirBnB holiday cottage fatha beth mas o'r Tŷ Mawr. Neu vice versa, sai'n cofio'r manylion, ond *still*! Clywed bo' nhw 'di neud yr un peth ble bynnag o nhw yn Lloegr cyn symud fan hyn. Rhyw fath o *property flippers* mae'n debyg.

RHIANNON Wel blydi hel! O'dd Aled ni a'i girlfriend â diddordeb yn y ty 'na! Ma' nhw 'di gorfod chwilio mas o'r sir yn gyfan gwbwl nawr! Chi 'di gweld prisoedd y tai ma'n codi?! Ma' fe'n ridiculous! A co pobl felna'n swoopo mewn a chymryd y rhai ma' siawns 'da ni acshiwli brynu, ac am betb? I ddod a blydi tourists 'ma! Bron pobman yn llawn fforenyrs o ryw ddesgripsiwn fel ma'ddi, ffili symud heb glywed acen yn dre-

MARI -Nage fforenyrs….
(YN OCHNEIDIO'N DDWFN, AC YN DECHRAU ETO)

O fan hyn ma' Kelly'n dod, ife-

BECA (YN PWYSO YMLAEN AR Y BWRDD)

A phryd o'dd y tro diwetha gwelais ti hi Maz, hmm? Dim am flynyddoedd ar ôl iddi cwrdd a'r Sais snobby 'na! A nawr co hi'n dangos lan yn cymryd mantais, o ni, o'r pentre! Na, not having it!

RHIANNON Aros nes bo' fi'n gweud 'tho Aunty Mags. Bydd hi'n *furious*, ma' hi'n rili ypset bo' Aled mynd i fod milltiroedd i ffwrdd, a hi ddim yn gyrru.

MARI Falle ddylwn ni siarad 'da Kelly gynta, t'mod, falle bo' *wires* 'di croesi rhywle.

BECA Ie, ma' nhw'n renofatio'r tŷ er mwyn rhentu e mas yn rili cheap...

Na! Mynd i werthu e, hyd yn oed, am bris hollol affordable i ni'r *less fortunate* mas o garedigrwydd ei calonnau!

Achos mae hi sydd heb fyw 'ma am flynyddoedd a fe sydd heb erioed yn rili becso am y gymuned?! Get real, Maz, ife?

BECA'N ROLIO'I LLYGAID TRA'N SEFYLL A DECHRAU CASGLU EI PHETHAU. Y DDWY ARALL YN DILYN.

CONTINUED: (2)

RHIANNON Ffinda di mas mwy o wybodaeth yn Ti a Fi Dydd Gwener, Maz. Fi'n methu dod - cyfweliad job 'da Gar a fi'n gorfod gyrru fe. Ond *in the meantime* fi dal yn dweud 'tho Anti Mags.

MAE'R MENYWOD YN GADAEL.

GOLYGFA 2 NEUADD Y DRE, MAE SESIWN TI A FI NEWYDD ORFFEN AC MAE MARI YN TACLUSO'R YSTAFELL. MAE KELLY YNA YN PACIO'R BYGI (EFALLAI GWELWN POBL ARALL YN PACIO/ TACLUSO AC YN GADAEL YN Y CEFNDIR).

KELLY Oni'n meddwl taw ti oedd yn redeg y sesiynau?

MARI (YN EDRYCH LAN O'R TACLUSO)

Na, fi sy'n cydlynu'r gweithgareddau i gyd yma. Cynorthwyydd o'dd y job description, ond ma' *general dogsbody* yn well ffit.

MAE MARI YN ROLIO'I LLYGAID AC MAE KELLY YN CHWERTHIN. MARI YN NODIO AT Y BYGI.

Joioch chi?

KELLY Do! O'dd e'n neis ca'l bod mas o'r tŷ a ca'l bach o dawelwch.

MAE MARI'N EDRYCH O GWMPAS Y STAFELL A NÔL ARNI'N HURT AC MAE KELLY'N CHWERTHIN ETO.

O'dd dim syniad 'da fi faint o sŵn a lanast a jest chaos llwyr bydde symud a renofatio! Dyma'r gorau mae William 'di cysgu mewn dyddiau, oni'n hanner meddwl am gadw'r mat mas ac ymuno ag e!

MARI Dere nôl am 2, ma' yoga 'ma. Amser ideal am nap fach os ti'n gofyn i fi!

KELLY Ha! Smo ti'n rong, ond yn anffodus 'ma cyfweliad 'da Josh - gŵr fi - prynhawn 'ma, so onibai bod yoga yn dod gyda babysitting service, adre amdani. Prynhawn arall o lusgo bocsys a sandio waliau a trio cadw'r llwch lawr digon i beidio boddi ni, ond o leia bydd Josh ddim o gwmpas yn esgus gwbod beth ma' fe'n neud gyda'r bangio a hacio, sbo!

MARI Jiw, smo chi'n byw yng nghanol hwna i chi? Yn enwedig gyda'r un bach??

KELLY Ddim rili - mae 'na g*ranny flat* bach sy'n ddigon i ni byw ynddi am nawr. Bydd hwna angen upgrade rhywbryd, ond *time will tell* os i ni'n bwrw 'mlaen a neud e'n syth ar ôl y tŷ, neu os bydd angen break o rhyw 3-5 working years arnon ni!

KELLY A MARI YN CHWERTHIN.

MARI Yn y tŷ chi'n cynllunio aros, te?

KELLY Wel ie, unwaith ma' fe 'di gorffen.

(MORE)

(CONTINUED)

CONTINUED:

Bydd hwna ddim am sbel, yn enwedig gyda Josh yn chwilio am swydd llawn amser, so am nawr y fflat yw e. Ma' fe bach fel bod nôl yn uni!

MARI Siwr bydd y nofelti 'na'n diflannu'n gyflymach nag o'dd e'n arfer pryd 'ny!

KELLY Siwr o fod; dim cwsg achos alcohol a hangovers o'dd e pryd 'ny, nage colic a Cyw. Ond *no pain, no gain*, fel ma' nhw'n dweud, ife?!

MARI Rheswm penodol pam symud nôl fan hyn, te? Dyw e ddim yn gwmws yn llawn bywyd!

KELLY (SHRYG)

Rhywle dawel o ni moyn. O'dd Ashton-Under-Hill ddim yn gwmws yn llawn bywyd chwaith, ond o'dd dim sens o gymuned 'na i fi, t'mod? Dim y fath o gymuned tyfon ni lan gyda, aniwei. A ni moyn i William tyfu lan yn y Gymraeg, ife - mae Josh yn dysgu. Yn araf, ond mae e'n trio! A ni'n agosach i Mam nawr, mae hi dim ond lawr yr hewl nagyw hi, a dyw teulu Josh ddim yn bell dros y bridge. Jest eisiau dechrau da i William, t'mod?

My God, fi'n swnio fel popeth o ni'n cymryd y piss allan o pan o ni'n ifanc! Byddai'n neud cacennau i Merched y Wawr a Stitch n Bitch cyn i fi troi rownd, nawr!

MARI Pob Dydd Llun a Iau, un yn y prif neuadd, y llall yn y stafell gefn rhag ofn bo rhywun yn dropio eaves ar y bitsho!

MAE'R DDWY YN CHWERTHIN.

KELLY Ti ffansi cwrdd am coffi rhywbryd? Fath o stitch n bitch, heb y stitch? Falle Dydd Mawrth?

MARI (YN EDRYCH YN ANGHYFFORDDUS)

O, fi methu neud Dydd Mawrth, sori.

KELLY Oce… rhyw ddiwrnod arall, te?

MARI Ie, yn sicr! Eitha lot yn mynd mlaen gweddill yr wythnos, ond definitely rhywbryd!

MAE MARI YN GWENU'N EITHA FFALS/ NERFUS, AC MAE KELLY'N NODIO.

KELLY Wrth gwrs, dim probs. Eitha lot 'da ni neud gyda'r tŷ, well i fi cracio 'mlaen 'da hwna pob cyfle ga fi aniwei. Gad fi wybod pan ti'n rhydd, falle pan 'y ni'n dod i Ti a Fi wythnos nesa neu rhywbeth.

CONTINUED: (2)

MARI (YN NODIO)

Wrth gwrs. Mae ‘di bod yn lyfli dal lan ‘da ti, Kelly.

KELLY (YN GWENU)

A ‘da ti. Ta-ra!

AR ÔL I KELLY GADAEL, MAE MARI YN OCHNEIDIO YN DDRWM, RHEDEG DWYLO DROS EI GWYNEB AC YN YNGANU ‘FUCK'S SAKE’ O DAN EI ANADL.

GOLYGFA 3 Y NEUADD. MAE MARI A BECA YN EISTEDD WRTH BWRDD. AR Y BWRDD MAE TRI PANED. MAE PLANT YN CHWARAE AR Y LLAWR YN Y CEFNDIR/ NEU MEWN BYGIS. MAE RHIANNON YN STORMIO I MEWN AC YN DANFON PLENTYN I CHWARAE GYDA'R LLEILL/ YN PARCIO BYGI. MAE HI'N TAFLU EI HYN I MEWN I GADAIR GYDA SGRÊCH. MAE MARI YN TROI YN GYFLYM I TSECIO'R PLANT AC YNA NÔL AT Y BWRDD WRTH I BECA SIARAD.

BECA Beth uffach sy'n bod arnot ti? Dim ond Tuesday yw e!

RHIANNON Ffycin wancyrs Saesneg! 'Na beth sy'n ffycin bod arna i!

MAE MARI'N EDRYCH O GWMPAS YN GYFLYM, YN OFIDUS.

BECA (WRTH CHWERTHIN)

Bach yn uwch, Rhi, nethon nhw ddim cweit clywed tu fas!

RHIANNON (HEB ISELHAU EI LLAIS)

Wel, mae nhw yn!

MAE RHIANNON YN TAFLU EI HYN NÔL YN Y GADAIR A PHLETHU EI BREICHIAU.

MARI Beth yn y byd sy' 'di digwydd?!

RHIANNON Gath Gareth ddim y job 'na.

BECA A MARI YN RHANNU EDRYCHIAD.

MARI Oh?

RHIANNON Ie. Gyrais i fe'r holl ffordd i Merthyr, cymrodd e dros awr i gyrraedd adre achos y traffig. Ond o'dd e'n rili bositif am yr un yma! Ond ni'n clywed heddiw bo' nhw wedi roi'r job i'r ffycin wancyr o Sais 'na, gŵr Kelly!

BECA O, fi mor sori, Rhi. Ma' hwna'n siom.

RHIANNON Siom?! Siom?! Ffycin travesty yw e! Siwr bo' nhw ond wedi rhoi'r job iddo fe achos rhyw *equality and diversity* peth!

BECA Sai... Sai'n credu bod hwna'n gweithio felna, t'mod, jest am fod yn, like, Bristolian. Sai'n siwr, ddo.

MAE MARI YN AGOR EI CHEG OND YN EI CHAU ETO WRTH I RHIANNON ANWYBYDDU BECA A CHARIO YMLAEN.

(CONTINUED)

CONTINUED:

RHIANNON O'dd e wir wedi paratoi am y job 'ma, gath e shirts newydd a phopeth, bydde fe *in the bag* heblaw am… fe blydi Simon Sais lan yr hewl!

BECA (YN SIBRWD TUAG AT MARI)

Simon yw ei enw fe??

MARI YN RHYTHU ARNI A SHIGLO'I PHEN YN GYFLYM.

RHIANNON Ma' fe'n trio tro ar ôl tro, ac i beth?! Ni'n gwario arian ar y blydi cyfweliadau a wedyn mae hyd yn oed llai o arian gyda ni ar gyfer blydi byw, ma' fe'n hollol ridiculous!

MAE RHIANNON YN YMDDANGOS EI BOD YN TAWELU CHYDIG, YN FWY YPSET NA GRAC. MAE MARI YN ESTYN DROS Y BWRDD I DDAL EI LLAW.

MARI Hei, ma' fe'n shit. Ond meddylia am y peth, reit? Dyw'r bysys ddim yn grêt; siwr bydde ti 'di gorfod gyrru fe nôl a 'mlaen yn fwy aml na dim, a sut bydde hwna 'di ffitio mewn gyda dy waith di, a stwff y plant, hmm? Yn enwedig os mae patrymau shiffts gwahanol. Am hunlle, rili.

BECA Ie, ac unwaith i chi'n adio lan yr arian chi'n gorfod gwario ar transport, bydde fe siwr o fod ddim werth e yn y pendraw. Bydd rhywbeth arall yn ymddangos nawr, you'll see.

RHIANNON Ie, bydd mwy o Saeson yn ymddangos fyd. Clywed loads o blydi Eastenders accents o gwmpas y lle fel ma'ddi, waeth mae'n mynd i fynd, a bydd dim jobs o gwbl i gal ochr yma o Gaerdydd! I mean, pam symud i fan hyn o bob man?!

BECA (YN CEISIO BOD YN GALONOGOL)

Wel, fi yma for a start! Ma' hwna'n ddigon o attraction i symud i unman nagyw e?!

PAWB YN CHWERTHIN. BECA YN CODI'I YSGWYDDAU.

Tai chêp ife. Cost of living chepach. Lovely views ar y commute mae loads yn neud.

MARI YN RHYTHU AR BECA AC YN YNGANU 'WHAT THE FUCK?!' GYDAG YSTYMIAU DWYLO

BECA (YN GYFLYM)

Ie, digwydd loads, hollol shit. Ridiculous. Sori.

CONTINUED: (2)

RHIANNON Ond 'na'r peth, ife?! Ma fe'n shit fan hyn, ond *our* shit yw e! Ma' nhw'n neud popeth yn waeth! Ma' fe'n horrible!

MARI Bydd rhywbeth yn gweithio mas yn fuan nawr, gei di weld. Nai cadw llygaid a chlustiau mas; mae gwaith yn dechrau'n fuan ar ryw tai newydd ymyl y pentre 'does e?

RHIANNON Diolch. Ond cofia dyw e ddim yn gallu neud lot o jobs achos 'i gefn e. Mae'r *job centre* yn mynnu danfon e i gyfweliadau am stwff dyw e jyst ddim yn gallu neud neu bydd e'n colli'r pitiful amount ma' fe'n gal. Wedyn'i ti'n gweld pobl yn symud ma', a ma popeth 'da nhw. Ma fe'n hala fi'n benwan!

MARI A BECA YN RHANNU EDRYCHIAD ARALL WRTH IDDYN NHW I GYD SEFYLL A DECHRAU PACIO I ADAEL.

GOLYGFA 4 Y NEUADD. MAE YCHYDIG O AMSER WEDI PASIO ERS Y GOLYGFA DIWETHAF, MAE'R PLANT CHYDIG BACH YN HŶN A DOES DIM BYGIS. MAE KELLY A MARI YN SEFYLL YN SIARAD. MAE MAB KELLY, WILLIAM, YN SEFYLL WRTH EI HYMYL. MAE BECA A RHIANNON YN CERDDED MEWN GYDA'U PLANT. MAE PLANT BECA A RHIANNON YN SYMUD OFF I CHWARAE.

WILLIAM Can I play?

KELLY Maen nhw'n siarad Cymraeg hefyd, Wil. Cer i ofyn iddyn nhw'n neis.

MAE WILLIAM YYN CERDDED DRAW I'R PLANT AC MAE'R OEDOLION YN EI WYLIO'N EISTEDD A CHYMRYD TEGAN. MAE MARI YN EDRYCH YN ANGHYFFORDDUS RHWNG RHIANNON A KELLY.

MARI Paned i bawb, te?

WRTH I MARI SYMUD OFF Y LLWYFAN, MAE RHIANNON YN CYMRYD SEDD.

BECA Smo ni 'di gweld ti o gwmpas ers sbel, Kel. Brysur 'da'r tŷ, ife?

KELLY O, paid! Popeth yn cymryd dwbwl yr amser ma fe fod, yn enwedig gyda Josh yn gweithio gymaint nawr-

MAE RHIANNON YN GWNEUD SŴN SGOFFIO, AC MAE KELLY'N EI LLYGADU.

-ond ma' fe'n dod yn ei flaen, yn araf, araf bach!

MAE BECA'N GWENU BRAIDD YN ANGHYFFORDDUS WRTH WELD AGWEDD RHIANNON.

BECA Lwcus bod y fflat 'na gyda chi hefyd, te.

KELLY Ie; o'n ni'n gobeithio gorffen y tŷ erbyn i hon ddechrau'r ysgol, ac o ni moyn ca'l rhywfath o drefn ar y fflat erbyn 'dolig, ond 'na fe!

RHIANNON Plans da chi am rentu'r lle dros 'dolig, o's e? Holiday let bach cosy?

KELLY (YN DDRYSLUD)

… Na? Bydde fe'n neis i ga'l rhywle i deulu Josh aros dros y gwyliau, 'na gyd, safio arian ar hotels a gorfod teithio o'r dinas - sdim lot o lefydd o gwmpas fan hyn i aros, o's e! - a hyd yn oed os i ni'n gorffen y tŷ yn gyfan gwbwl, bydd sicr dim digon o le i'r teulu i gyd a'r holl blydi anrhegion ma' nhw wastad yn mynnu troi lan gyda!

(CONTINUED)

CONTINUED:

KELLY A BECA YN CHWERTHIN. RHIANNON YN GWENU'N DYNN.

RHIANNON Na neis i rai, ife?!

MAE KELLY YN AGOR EI CHEG OND MAE MARI YN YMDDANGOS GYDA'R DIODYDD.

MARI Coffi? Ni'n redeg yn isel ar bopeth arall gen i ofn!

AR ÔL SBIO AR RHIANNON AM EILIAD YN HIRACH, MAE KELLY YN CODI EI BAG.

KELLY Rhaid i fi fynd, arnai ofn. *Time and tide and cement mixers wait for no man*, neu rywbeth felly.

MAE HI'N TROI TUAG AT MARI.

Sori, eto. Os ti byth moyn chat a paned, galwa mewn unrhywbryd.

MAE MARI'N NODIO WRTH I KELLY CASGLU WILLIAM A GADAEL. UNWAITH MAE'R DRWS YN CAU TU ÔL IDDI MAE RHIANNON YN SYTHU.

RHIANNON (YN MOCIO KELLY)

"Os ti byth moyn chat a paned…!" Be', dyw chats a paneds ni ddim yn ddigon da iddi hi, nagyn nhw?! *Honestly*.

MAE BECA'N CYMRYD SEDD.

BECA Ie, cos o ti mor groesawgar fanna, doeddet ti?!

RHIANNON Wel, be' ti'n disgwyl?! Smo hi 'di neud dim ymdrech o gwbl, smo ni di gweld *hide nor hair* ohoni yn y grwpiau ers Ti a Fi, a nawr ma' hi fan hyn yn trio bod yn *all pally pally* 'da ti, Maz!

MARI A BECA'N CODI AELIAU OND YN DWEUD DIM.

Beth o'dd hwna bythdi, aniwei? Sori am be'? Paid gweud, ma' hi'n cymryd job ti, nawr.

MARI (OCHNEIDIO)

Blydi hel, Rhi, give it a rest, ife.

MAE MARI'N EISTEDD.

Cydymdeimlo o'dd hi. Mae'r grwp meithrin yn cau.

BECA A RHIANNON YN SIARAD AR DRAWS EI GILYDD GYDA CWESTIYNAU A CHYDYMDEIMLADAU.

CONTINUED: (2)

Dim digon o blant wedi cofrestru, ffili cyrraedd y targed o'dd angen i gadw fynd.

BECA Fi mor sori, Maz.

RHIANNON Gweld, dyma beth sy'n digwydd ife. Wedais i, do fe! Pobl yn symud ma' yn cymryd y tai, y jobs, a'n sydyn reit mae hyd yn oed dyfodol y plant yn cael ei ddinistrio. O, hawdd i bobl fel Kelly symud fan hyn a meddwl dim am gefnogi'r actual bywyd a diwylliant sy' 'da ni! Meithrin, clybiau, neith e ddim stopo nes bo' popeth yn ddierth a saesneg, I'm tellin' you!

MARI (YN FLINEDIG)

Mae bachgen Kelly yn mynd i dderbyn addysg Gymraeg, Rhi. Nage bai hi yw e, t'mod.

RHIANNON Nid yn uniongyrchol, falle.

MAE MARI'N EDRYCH YN WAN AR BECA.

BECA Mae pwynt 'da ti. Ond mae pwynt 'da hi, hefyd.

RHIANNON Wrth gwrs bod pwynt 'da fi. Gareth yn gweld e i gyd yn digwydd yn y job centre, nagyw e?

MARI (YN CEISIO NEWID PWNC)

Sut mae'r plant yn edrych 'mlaen at ddechrau'r ysgol fawr, aniwei?

MAE HI'N CRYFHAU EI LLAIS YCHYDIG AC YN ANELU TUAG AT Y PLANT GAN EI BOD HI'N YMWYBODOL BOD NHW NAWR YN GWRANDO.

'Na antur fawr cyffrous, ife?!

PLANT YN CHWERTHIN.

BECA Ffili aros cael gwared e!

RHIANNON Sgwn i pwy fydd yn bennu lan mewn dosbarth gyda fe, mab Kelly. Gobeithio ddim Alex. Be' 'di'i enw fe? Brayden? Kayden? Jayden?

MARI YN EDRYCH YN HURT ARNI.

MARI William.

RHIANNON Wel, 'na fe, ife.

MAE HYD YN OED BECA'N EDRYCH YN HURT AR RHIANNON NAWR.

(CONTINUED)

CONTINUED: (3)

MARI ‘Na be’?! Ti'n bod yn ridiculous! Pedwar blwydd oed ‘y’n nhw, Rhi, rho’ cyfle i’r boi o leia. Gad i Alex rhoi cyfle i'r boi! Jesus Neli!

PLANT YN CHWERTHIN.

RHIANNON Wel. Gewn ni weld.

GOLYGFA 5 GOLYGFA SAIN.

Y LLWYFAN YN DDU. CLYWN CEFNDIR O SŴN PLANT YN CHWARAE, SEINIAU CYFFREDINOL BYDDECH YN CLYWED MEWN YSGOL, AR YR IARD A TU MEWN I'R DOSBARTH - SIARAD SGRECHIAN A CHWERTHIN, PETHAU'N SYMUD O GWMPAS. RHWNG Y SŴN CEFNDIROL YMA, MAE FFOCWS MEWN A MAS AR AMBELL O FRAWDDEG GAN Y CYMERIADAU WILLIAM, ALEX, A GETHIN. MAEN NHW'N MYND YN HŶN WRTH I'R GOLYGFA SYMUD YN EI FLAEN. CLYWN LLAIS ATHRO HEFYD.

WILLIAM Ga fi chwarae?

ALEX Ti'n siarad yn funny!

GETHIN Fi'n mynd i gofyn i William rhannu lliwiau fe.

ALEX Ti ddim fod siarad i fe!

Mam yn dweud bod gwallt hir ar bechgyn yn sili!

WILLIAM Mam yn dweud bod ti'n sili!

ALEX (YN SARHAUS/ MOCIO CANU)

Seren yr wythnos! Seren yr wythnos! Sad!

GETHIN Ti ddim yn gallu bod ar tîm ni, Wil. Sori!

LLAIS ATHRO Yn y dosbarth cofrestru bydd Alex, Arthur, Ela, Nia, a William

SŴN YN PYLU ALLAN

GOLYGFA 6 SWYDDFA ATHRO. MAE'R PLANT WEDI TYFU AC MAENT YN YR YSGOL UWCHRADD. MAE'R RHIENI, BECA, KELLY, A RHIANNON WEDI CAEL EI GALW MEWN GAN FOD ALEX, GETHIN A WILLIAM WEDI BOD YN YMLADD. MAE PAWB YN BRESENNOL GYDA'R PENNAETH BLWYDDYN.

PENNAETH BLWYDDYN Dy'n ni gyd jyst ishe gwybod be' yn union ddigwyddodd, fechgyn, fel ein bod ni'n gallu delio gydag unrhyw materion sydd wrth wraidd yr ymddygiad yma.

MAE'R BECHGYN OLL YN DAWEL OND YN RHYTHU NAILL AI AR Y LLAWR NEU AT EI GILYDD.

BECA Geth?

MAE GETHIN YN EDRYCH YN WAN AR BECA

GETHIN Dyw Wil jyst ddim yn dda at pêl-droed Mam, so o'dd neb moyn e ar y tîm.

PENNAETH BLWYDDYN YN EDRYCH AR WILLIAM

So 'nes ti fwrw Alex am bo' Gethin wedi dweud dy fod ti'n methu chwarae pêl-droed?

WILLIAM (YN FFRWYDRO)

Na! Nes i bwrw Alex cos wedodd e bod Dad fi wedi dwyn job Dad fe a bai ni oedd e bod e methu mynd i Llangrannog! Fi'n chwarae pêl-droed yn *fine*!

ALEX Nes ti galw Dad fi'n scrounger! Dyw Dad fi ddim yn scrounger, Dad ti sy'n horrible!

MAE PAWB ARALL YN YR YSTAFELL YN EDRYCH YN SYN AM EILIAD. CYN I'R PENNAETH BLWYDDYN GALLU YMATEB, MAE KELLY YN TROI AT RHIANNON.

KELLY (YN GRAC OND PWYLLOG)

So mae dy plentyn di yn beio un fi am fod dim job gyda'i Dad e? Neis iawn, yep, oce, reit.

RHIANNON Hang on-

KELLY Unarddeg oed yw nhw! Dyw sefyllfa ariannol ni ddim fod yn fusnes iddyn nhw!

YN EDRYCH NÔL AT Y PENNAETH BLWYDDYN

Sai'n cefnogi defnyddio trais, a bydd William a fi'n ca'l geiriau pellach pan 'i ni adre, ond ma' fe'n swnio i fi fel tase fe di gorfod amddiffyn nid yn unig ei hunan ond ei deulu.

(CONTINUED)

CONTINUED:

RHIANNON — Woa nawr! Amddiffyn ei deulu?! Mae dy fab di newydd galw fy ngŵr i'n scrounger! A ble ma' fe wedi pigo lan hwna, hmm?! Alex sydd yn amddiffyn ei deulu fan hyn, surely!

MAE KELLY'N MYND I SIARAD OND MAE'R PENNAETH BLWYDDYN YN TORRI AR DRAWS CYN I AIR LLAWN ADAEL EI CHEG

PENNAETH BLWYDDYN — Mae'n swnio i fi fel bod angen i bawb yn y sefyllfa yma camu nôl a phwyllo lawr. Dy'n ni gyd i fod yn ffrindiau; os nad ffrindiau yna o leia yn barchus tuag at ein gilydd, a does 'na ddim byd parchus am ymladd gyda'ch gilydd. O ganlyniad, bydd pawb yn derbyn cosb. Amser egwyl a chinio am wythnos.

MAE PAWB YN EDRYCH CHYDIG YN FLIN, OND BECA SY'N SIARAD MAS.

BECA — Sori Mr Jones, fi'n deall bod y sefyllfa'n un ddifrifol a stwff, on nage Gethin bwrwodd rhywun ife? Sut ma' hwna'n deg?

PENNAETH BLWYDDYN — Mae'n cymryd dewrder a chyfrifoldeb i alw mas annhegwch a fwlio, a does dim ots pwy sydd a'r fai fan hyn - ac mae'n swnio i fi fel *six of one and half a dozen of the other* - mae Gethin wedi mynd ynghyd a'r sefyllfa heb drio ei gywiro. Bydd yr amser yma yn ei helpu i feddwl am ei agwedd tuag at ei gyfeillion, ac i fywyd wrth symud ymlaen.

YN SYLLU AR Y BECHGYN

Hoffwn i weld newid mawr yn yr ymddygiad yma erbyn diwedd wythnos nesa', bechgyn.

MAE PB YN EDRYCH YN BENODOL AR ALEX A WILLIAM OND YNA YN FWRIADOL RHWNG KELLY A RHIANNON. MAE'R MENYWOD YN GWRTHOD EDRYCH AR EI GILYDD.

GOLYGFA 7 YSTAFELL DOSBARTH. YN GWYNEBU'R GYNULLEIDFA MAE BYRDDAU LLE MAE ALEX, GETHIN, A WILLIAM YN EISTEDD BRON OCHR WRTH OCHR GYDA LLYFRAU A BEIROS. MAEN NHW YN CYFLAWNI COSB. MAE ATHRO YN BRESENNOL OND NID YW'N ANGENRHEIDIOL I'W GWELD AR Y LLWYFAN

MAE'R DEIALOG I GYD YN SIBRWD YN UCHEL.

GETHIN Gobeithio bod ti'n hapus nawr! Fi'n casau ysgrifennu creadigol!

ALEX Ti ddim angen bod yn greadigol, Geth; jyst dweud beth actually digwyddodd!

MAE GETHIN YN EDRYCH AR ALEX YN HURT.

GETHIN So ti moyn i fi ysgrifennu bod ti wedi pynsho fe gyntaf? A galw enwau?

ALEX YN EDRYCH AR GETHIN YN HURT.

ALEX Paid bod yn stiwpid! Aniwei, nes i dim ond pynsho fe cos o'dd e'n bod yn horrible am Dad fi! A roedd e dim ond yn bod yn horrible am Dad fi cos o ti heb pigo fe am y tîm pêl-droed! So bai ti yw e, rili!

GETHIN So… fi *yn* gorfod neud lan stori, so fi *yn* gorfod ysgrifennu creadigol, nagw i?

WILLIAM YN CILWENU.

ALEX Beth ma' fe'n gwenu am??

GETHIN Gad e, Al…

ALEX Na, na! *Funny*, yw e, bod Dad ti wedi ffyco lan Dad fi a nawr fi styc fan hyn? *Funny* yw e, bod ti'n meddwl bod Mami'n mynd i resciwo ti pob tro-

WILLIAM Y gair yw achub.

GETHIN (O DAN EI ANADL)

Jesus Christ Wil!

ALEX Y gair yw *Fuck You*, William!

ALEX A WILLIAM YN MYND I SEFYLL OND MAE'R ATHRO YN CLIRIO'I LLAIS AC MAEN NHW'N YMLACIO YN EI SEDDI ETO.

WILLIAM Sai'n gwybod beth ti moyn i fi neud! Fi'n sori, reit! Fi'n sori bod dad fi'n Saesneg, fi'n sori bo' fe'n gweithio yn y ffatri, fi'n sori bod Mami wedi symud ni i fan hyn, fi'n sori! O fi jyst moyn… o fi jyst moyn… *whatever*.

(CONTINUED)

CONTINUED:

MAE ALEX YN EDRYCH AR WILLIAM YN FEDDYLGAR AC WEDYN YN GWENU.

ALEX Ti moyn bod yn ffrindiau, Wil? Ti wir yn sori?

MAE WILLIAM YN NODIO.

Cwrdd â ni yn parc heno am 7.

GOLYGFA 8 TU FAS. NOS. MAE'R BECHGYN WEDI CWRDD YN Y PARC LLEOL.

MAE ALEX YN DAL FRICSEN, YN CHWARAE GYDA FE.

ALEX Ti wir moyn profi bod ti'n un ohonon ni?

WILLIAM YN NODIO.

MAE ALEX YN TAFLU'R FRICSEN TUAG ATO. MAE WILLIAM YN EI DDAL YN SYN.

Fi moyn bod yn ffrindiau gyda ti, Wil, fi rili yn. Ond fi ddim yn siwr bod ti rili moyn bod yn ffrind fi. Sai'n siwr ble mae *loyalties* ti'n gorwedd, t'mod? A'r unig ffordd i brofi ble maen nhw'n gorwedd - hynny yw, gyda ni fan hyn, ffrindiau ti - yw… i daflu'r fricsen 'na (YN PWYNTIO AT Y FRICSEN) trwy'r ffenest 'na (YN PWYNTIO TUAG AT TŶ AR DRAWS Y FFORDD)

GETHIN Al…

MAE ALEX YN RHYTHU ARNO AC MAE GETHIN YN TAWELU.

WILLIAM YN EDRYCH RHWNG Y TŶ, ALEX A'R FRICSEN.

WILLIAM Tŷ'r Jordan's yw hwna.

ALEX (YN GYFLYM)

Tŷ'r *Saeson*. Ti ddim yn sais wyt ti? Ti'n un ohonon ni, nagwyt ti? Hei?

MAE WILLIAM YN EDRYCH YN ANGHYFFORDDUS.

Ni gyd wedi neud e, nagyn ni, Geth?

MAE ALEX YN PWNIO YSGWYDD GETHIN.

GETHIN YN CODI'I YSGWYDDAU YN GWNEUD RHYW SŴN NIWTRAL

MAE ALEX YN RHOI BRAICH O GWMPAS YSGWYDDAU WILLIAM AC MAEN NHW'N DECHRAU SYMUD TUAG AT Y TŶ.

ALEX Nhw yw'r broblem, Wil. Nage ti. Ni'n gorfod dysgu gwers iddyn nhw, nagyn ni? Achos nhw sydd wedi bod yn dwyn stwff ni, see, a wedyn pobol fel ti sy'n cael y bai! Dyw hwna ddim yn rili deg, odi e? Saeson, Wil. Ti'n sais, Wil? Ti'n meddwl bod e'n ok, beth maen nhw'n neud? Ti fel nhw, moyn *recko* bywydau pawb yma? Ti a Dad ti-

(CONTINUED)

CONTINUED:

MAE WILLIAM YN SYDYN YN TYNNU I FFWRDD O'R FECHGYN AC YN LANSIO'R FRICSEN. CLYWN GWYDR YN MALU A SGRÊCH.

MAE ALEX A GETHIN YN EDRYCH YN SYN AC OFNUS AR EI GILYDD CYN RHEDEG. MAE WILLIAM YN AROS YN LLONYDD, WEDI DYCHRYN YN LLWYR.

GOLYGFA 9 STAFELL CYFWELD MEWN GORSAF HEDDLU. MAE KELLY A WILLIAM YN EISTEDD WRTH DDESG GYFERBYN A PLISMWN.

MAE'R PLISMWN YN AMLWG YN AROS AM ATEB I GWESTIWN MAE E NEWYDD OFYN. MAE KELLY'N DDAGREUOL.

KELLY Gweud 'tho fe pam, Wil! Beth oedd yn mynd trwy dy ben di?!

PLISMWN Mae Mrs Jordan yn yr ysbyty, William. Mae hwn yn ddifrifol. Os oes unrhywbeth gallet ti rhannu, efallai neith e helpu dy achos di. Oeddet ti ar dy ben dy hun?

MAE WILLIAM YN AROS YN DAWEL YN SYLLU AR Y BWRDD.

KELLY *For God's sake, William*! Sai'n deall! Ti'n hoffi'r Jordan's, ti wastad wedi hoffi'r Jordan's!

MAE KELLY'N EDRYCH AR Y PLISMWN.

Roedd e'n garddio gyda Mr Jordan wythnos diwetha! Mae Mrs Jordan yn neud blydi biscuits iddo fe bron pob wythnos!

EDRYCH NÔL AT WILLIAM.

(YN DAWEL)

Sai'n deall, bach. O'n i ddim yn meddwl… ti… fi just… ddim yn deall.

WILLIAM (YN DDAGREUOL AC YN GWEIDDI)

O'n i jest eisiau iddo fe stopo! Fi just eisiau ffrindiau, oni just ddim eisiau bod y sais horrible rhagor! O'dd e ddim fod… O'n i ddim yn meddwl… Fi yw'r sais horrible nagw i, Mami?!

MAE KELLY YN TYNNU WILLIAM TUAG ATI, Y DDAU YN CRIO.

GOLYGFA 10 NEUADD. BECA, MARI A RHIANNON YN EISTEDD O GWMPAS BWRDD YN SIARAD.

RHIANNON Wel, ma' fe'n profi hefyd, nagyw e, bod bois ni 'di derbyn cosb ond fe o'dd y thug *all along*!

BECA Ond o'dd Gethin ac Alex yna, Rhi. Wedodd Geth-

RHIANNON Nage nhw taflodd bric trwy ffenest rhyw hen gwpwl ddo, o'dd e?! Chwarae yn y parc o nhw, trio bod yn neis i'r boi, a ma' fe jest yn ca'l hollol *flip out*!

MAE MARI YN SCOFFIO A RHIANNON YN EDRYCH ARNI'N DDIG.

A beth yw hwna fod i feddwl?

MARI Ti erioed 'di meddwl falle taw ti sy' 'di achosi hwn i gyd?

RHIANNON Beth yn y byd ti'n siarad am?!

MARI 'Na gyd ti 'di neud ers iddyn nhw symud 'ma yw beio'r teulu gyfan am bopeth sy' 'di mynd yn rong gyda dy fywyd 'di. 'Na gyd mae Alex 'di clywed yw ti'n beio nhw am ddiffyg job Gar, am ddiffyg arian, a ma' fe 'di cymryd hwna mas ar y boi bach arall 'na achos 'na gyd ma' fe'n deall, 'na gyd ma' fe'n gweld ti'n neud.

RHIANNON Wel, sdim plant 'da ti, felly ti ddim yn deall rili, ond smo hwna'n wir o gwbl.

MARI Sdim angen plant arnai i wybod sut i fod yn *decent human being*.
(LLAIS YN DECHRAU CODI)

A falle os oedd Gareth yn gwario llai o amser ag arian yn y pub bydde mwy o impetus 'da fe i actually ffindo job, a bydde mwy o arian da chi i neud yn siwr bod y plant yn gallu neud y stwff mae'r plant arall yn neud, ond dyw Alex ddim yn mynd i feio'i Dad achos smo ti'n beio'i Dad - yr actual broblem - ti'n beio pobol sydd jest yn trio byw 'run fath a ti!

MAE MARI WEDI COCHI AC MAE HI'N CRYNU WRTH SYLLU AT RHIANNON. MAE PAWB YN DDISTAW AM EILIAD.

RHIANNON Wel, gydag agwedd felna, sdim syndod bod dy grŵp bach ti wedi cau!

BECA Girls, newn ni jest cymryd breath fan hyn, ife?

MAE'R DRWS YN AGOR AC MAE KELLY YN CERDDED MEWN.

(CONTINUED)

CONTINUED:

KELLY Three guesses am beth dych chi'n siarad!

MARI Kel-

MAE KELLY YN YSGWYD EI PHEN AC YN DAL LLAW LAN.

KELLY Na! Na, paid meiddio! "Kelly" beth? Paid a neud scene?
(YN SARHAUS AC YN MOCIO)

"O'n ni ddim yn siarad fel'na bythdi ti?"

Paid. Fel hyn ddechreuodd e, ife? Sesiynau Ti a Fi i bawb, ond dim ond os yw'r Ti a Fi yn born a bred yn y pentre 'ma a heb fyth gadael? Dim ots a yw nhw'n Gymraeg neu beidio? Bitch fach am bawb sy' ddim yn rhan o'r gang bach 'ma? Ti mor wael a nhw.

BECA Hang on, nage plant ni nath bron a lladd rhywun, ife?

KELLY (YN FFRWYDRO)

A pham nath e hwna, hei?! Na gyd ma'ch plant chi 'di neud ers i ni symud ma yw bwlio fe!

"Ti'n siarad yn funny, ma gwallt ti'n horrible!" a dim ond meithrin odd hwna! Ti'n gwbod faint o weithiau daeth William adre o'r ysgol yn crio? Yn ca'l meltdowns am fynd i'r ysgol, yn beggo i symud? Faint o weithiau es i i'r ysgol achos bo *"Geth yn dweud bod Mami ddim yn caru fi!" "Alex wedi taflu papur tŷ bach ar shoes fi pan o fi'n ca'l wiwi"*

Yr athrawon fatha *"plant yw plant, smo nhw'n gas yn wirioneddol"* ac oce, medda fi, bydd pethau'n gwella, byddi di'n neud ffrindiau, ti'n garedig a lyfli, a- a phob tro dath o adre yn drist, nes i gysuro fe, dweud bydd pethau'n gwella, bydd ffrindiau newydd 'dag e yn yr ysgol uwchradd. Bod Alex jest yn drist yn ei hyn a bydd e'n sori yn fuan.

Ond na, teithio ma' labelau, ife? *"Paid siarad da fe'r Sais. Weirdo."*

Na gyd o'dd e moyn odd ffrindie! Na gyd ma' fe erioed di moyn yw ffrindie! Ond na, beth gath e yn lle? Bai am sefyllfa sydd ddim byd i neud gydag unrhywun arall ond ti a dy blydi gŵr! Nage bai yr un ohonon ni yw e bo' dy gŵr di'n *deadbeat* a bo' ti methu cymryd cyfrifoldeb dros dy fywyd!

RHIANNON Pwy uffach-

KELLY (YN FFYRNIG)
(MORE)

(CONTINUED)

CONTINUED: (2)

NA! Ti 'di neud gormod o siarad! He was a *baby*, they were *babis*! Oni ishe iddo fe tyfu lan yng Nghymru. Adre. Ca'l addysg Gymraeg, neud popeth yn y Gymraeg fel nes i. Pawb yn lyfli, wedes i. Nes i ddim symud bant achos bo' fi'n snob, ond nes i symud nôl i ffindo bo chi yn. Saeson yw'r broblem?!

KELLY YN CHWERTHIN YN SARHAUS.

Ie, falle. Ond ch'mod beth yw'r real broblem fan hyn? Cymry Cymraeg snobyddlyd elitaidd gyda syniadau uwch ei statws yn trio gatekeepo'r pethau sydd i fod i bawb yw'r broblem fan hyn, Rhiannon. Ignorance a racists yw'r broblem. A phobl ddiog sydd ddim am newid eu bywydau, jest am beio pobl arall am bopeth wael, *Rhiannon*. Nes i ddim symud 'ma i striwo dy fywyd di, er 'sdim *syndod* 'da fi bo' ti mor *self-centred* i feddwl hwna! Ond diolch am ddifetha bywydau ni. Gobeithio bo' ti'n rili browd. Rili falch bo' dy fab yn tyfu lan yn gwmws fel 'i rhieni. I'r gâd.

MAE KELLY YN STORMIO MAS. RHIANNON YN GEGRWTH. MARI YN RHYTHU AR RHIANNON A BECA CYN RHUTHRO AR ÔL MARI. MAE BECA'N GALW AR EI HÔL.

GOLYGFA 11 TU FAS I DDRWS Y NEUADD, WEDI DILYN KELLY MAS O'R ADEILAD YN SYTH AR ÔL DIWEDD Y GOLYGFA DIWETHAF. MAE KELLY'N CERDDED, MAE DRWS Y NEUADD YN GLEPIO AR GAU, AC MAE MARI YN GWEIDDI AR EI HÔL HI.

MARI Kelly, plis, aros!

MAE KELLY'N ARAFU YCHYDIG OND DDIM YN TROI.

Plis!

MAE KELLY YN TROI I WYNEBU MARI

KELLY Beth ti moyn? Nagwyt ti 'di neud digon yn barod… neu ddim.

MAE MARI'N GWELWI.

MARI Fi mor sori. Fi'n gwybod bo' fi 'di bod yn rhy ddi asgwrn cefn, gyda Rhiannon. Ond ma' fe'n anodd-

KELLY (YN CHWERTHIN YN CHWERW)

Does erioed ymddiheuriad dda yn cael ei ddilyn gydag 'ond', Mari.

MARI A'th hi'n rhy bell, fi'n gwybod 'na. Ond i ddechrau, o'dd hi'n neud pwynt da, t'mod, am amddiffyn y gymuned - ma' fe'n gymhleth, yn trio bod yn groesawgar, ond eto'n gweld y diwylliant, yr iaith, y gymuned Cymraeg, yn araf yn diflannu.

KELLY Triodd Rhiannon byth fod yn groesawgar. Na Beca. Ti falle tipyn bach achos o ti'n teimlo'n euog, neu achos bo dim guts 'da ti i sefyll lan iddi. Symudais i ma - nôl 'ma! - am fod i moyn cymuned Cymraeg i fi ac i Wil. O's syniad 'da ti shwd beth yw e i fod ar ymylon gymuned yn Lloegr am fod yn Gymraes, a wedyn yn ddierth i gymuned Cymraeg am… Wel, sai'n siwr am beth… Meiddio gadael, neu meiddio dod nôl? Nage 'nheulu i yw'r blydi threat i'r gymuned! Oni moyn ymuno, a phopeth! Ti'n meddwl bo' fi ddim yn gweld y sefyllfa? Bo' fi ddim yn ymwybodol o bopeth sy'n gwynebu ni fan hyn? Ni, Mari, nage jest chi! Oni moyn helpu! A nawr...

MARI Fi'n gwybod! Ti'n meddwl bo' fi ddim yn gwybod?! Chwerw ma'ddi am fod 'i fywyd hi 'da Gareth yn shit, a fi'n gwybod 'na, ma' hi'n gwybod 'na, ma' pawb yn gwybod 'na, ond haws neidio ar y bandwagon a beio pobl arall, ife!
(MORE)

(CONTINUED)

CONTINUED:

Ac o'dd e *yn* anodd, ni 'di bod yn ffrindiau am flynyddoedd, ni yw'r rhai sy' 'di cadw'r clybiau i fynd, y grwps bach yn y neuadd, a nawr fi'n colli nhw, 'fyd, a ma' fe'n teimlo fel bod popeth yn cwympo mas o'm rheolaeth, bod popeth yn newid er y gwaetha, I mean, ma' tŷ newydd gael ei werthu ar Station Street am bron i ddau gan mil o bunnau, a ma' nhw'n troi e mewn i AirBnB. Ar Station Street! Reit drws nesa i Dai Drugs! Ma'r peth yn hollol hurt! Fi'n teimlo felse bywyd fi'n diflannu-

MAE KELLY YN RHYTHU ARNI.

KELLY Mae dy fywyd *ti'n* diflannu?

MYND I DROI I FFWRDD.

MARI Sori! Sori! Fi'n gwybod taw nage dy fai di yw dim o hynny, fi'n gwybod! Ti o'dd 'na, a ti o'dd yn hawdd i feio achos o'dd gwyneb 'da ti, *actual person* yn lle'r *'nhw'* vague sy'n striwo popeth. Haws beio person ti'n gallu gweld a gweithredu yn erbyn na cheisio delio â materion sy' mas o reolaeth, ife, yn enwedig y rai ar lefel yn uwch na sy' 'da ni syniad sut i daclo!

KELLY Ond wedais ti ddim o hwn iddi, wedes ti ddim byd iddi, do fe?! Beca, mae hi'n mynd gyda'r flow, ma' hwna'n amlwg, ond ti! Gadawes ti iddi hi *weithredu yn erbyn* fi, yn erbyn Wil!

MARI Na! Oni erioed yn meddwl bydde fe'n dirywio cymaint a hyn! Oni'n meddwl bydde hi'n gweld y *bigger picture* yn araf-

KELLY Dirywio?! Yn araf?! Mae dros degawd wedi bod, Mari, a ma' popeth wedi chwalu! Yr holl flynyddoedd 'ma... Ti'n esbonio shwd gymaint am agwedd Rhiannon, ond ti? Ti 'run fath a hi!

MARI Na! O, Kel! Dyle fi 'di bod yn fwy llym, herio hi mwy, fi'n gweld 'na nawr, a fi'n gwybod bod e'n hawdd ddweud, ond fi mor, mor sori!

MAE KELLY YN SYLLU AR MARI AM SBEL.

KELLY (WRTH DDAL LLYGAID MARI)

Esbonia hwna i fy mab.

DIWEDD